

Materion lechyd:

**O Bwysau i Bosibilrwydd –
Ydyn ni'n ddigon dewr i
newid?**

Mewnwelediadau gan
Gomisiwn Bevan

**Comisiwn
Bevan
Commission**

www.bevancommission.org

Rhagair

Mae'n adeg dyngedfennol i Gymru nid rhybuddion pell yw'r pwysau sy'n wynebu ein system iechyd a gofal mwyach, ond realiti dyddiol a deimlir ym mhob cartref a chymuned. Mae'r galw'n cynyddu, mae anghydraddoldebau'n ehangu, ac mae anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn dod yn fater o frys.

Ac eto mae'r foment hon hefyd yn gyfle i anrhydeddu gwaddol Aneurin Bevan. Nid drwy edrych yn ôl, ond drwy weithredu'n feiddgar i sicrhau system gynaliadwy, deg a pharod i'r dyfodol ar gyfer y degawdau i ddod.

Mae Maniffesto Comisiwn Bevan, *Materion Iechyd: Creu Iechyd a Gofal Cynaliadwy yng Nghymru*, yn nodi gweledigaeth glir ac annibynnol ar gyfer sut y gall Cymru fynd i'r afael â'r her hon. Mae'r tri ymrwymiad craidd, cadw pobl yn iach drwy gydol eu bywydau, defnyddio ein hadnoddau'n ddoeth, a thrawsnewid y system i fod yn addas ar gyfer y dyfodol, yn cynnig cynllun ymarferol ac egwyddorol ar gyfer adnewyddu cenedlaethol.

Mae gan Gymru gyfle gwirioneddol i arwain y ffordd ym maes iechyd a lles unwaith eto, ond dim ond os gwnawn ddewisiadau beiddgar, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, nawr. Mae angen i ni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n ychwanegu gwerth go iawn. Mae angen i ni gyfeirio ein hymdrech ar y cyd tuag at ymagweddau sy'n gwella bywydau, yn lleihau pwysau ar wasanaethau ac yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor.

Mae'r crynodeb hwn yn dwyn ynghyd wyth darn myfyriol gan Gomisiynwyr Bevan, sy'n adnabyddus yn rhyngwladol, sy'n archwilio'r cwestiynau sylfaenol y mae'n rhaid i Gymru eu hwynebu nawr.

Mae eu doethineb a'u harbenigedd unigol a chyfunol yn sail i'r cyfraniadau hyn. Maen nhw'n ystyried; beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd i symud o drin salwch i greu iechyd; sut rydym yn blaenoriaethu atal, yn cefnogi lles ariannol a beth bydd ei angen i adeiladu diwylliant o ansawdd, dysgu ac ymarfer darbodus.

Maent hefyd yn archwilio sut y gellir hybu arloesi cymdeithasol, digidol a thechnolegol â phwrpas; pam mae newid diwylliant yn hanfodol ar gyfer trawsnewid ystyrion; a sut y mae'n rhaid i ni werthfawrogi a chynnal y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r themâu hyn yn adleisio galwad ein maniffesto i roi'r gorau i wneud yr hyn sy'n ychwanegu ychydig o werth, mabwysiadu arloesedd yn gyflymach, a gwneud defnydd gwell o dystiolaeth, sgiliau ac adnoddau.

Gyda'i gilydd, mae'r darnau hyn yn symud y tu hwnt i rethreg gyfarwydd. Maen nhw'n herio Cymru i fod yn feiddgar ac yn ddewr, yn union fel yr oedd Aneurin Bevan yn ei gyfnod. Maent yn wynebu gwirioneddau anghyfforddus, i roi terfyn ar arferion gwerth isel, ac i ymrwymo i'r camau ymarferol, weithiau anodd, sy'n ofynnol i adeiladu system sy'n wirioneddol addas ar gyfer y dyfodol. Maent yn adlewyrchu rôl y Comisiwn o ran cynnig mewnwelediad annibynnol a her adeiladol ar adeg pan fo angen eglurder ac uchelgais fwyaf.

Wrth i Gymru agosáu at etholiadau'r Senedd, bydd y dewisiadau a wneir nawr yn llunio lles ein pobl a'n cymunedau am genedlaethau i ddod. Cynigir y cyhoeddiad hwn yn yr ysbryd hwnnw. Mae'n wahoddiad i feddwl yn wahanol, gweithredu'n bendant a gweithio gyda'n gilydd i greu iechyd a gofal darbodus a chynaliadwy sy'n parhau i fod yn wir i'r egwyddorion y cafodd ei sefydlu arnynt.

Mae'n amser i weithredu. **Materion Iechyd**. Mae'r hyn a ddewiswn ei wneud, neu beidio â'i wneud, nesaf yn bwysicach byth.



Ilora Finlay
Yr Athro Barwnes Ilora Finlay
Cadeirydd, Comisiwn Bevan



Helen Howson
Dr Helen Howson
Cyfarwyddwr, Comisiwn Bevan

Cynnwys

<u>Maniffesto Comisiwn Bevan – Materion Iechyd: Creu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynaliadwy yng Nghymru</u>	1
<u>Materion Iechyd: Anrhydeddu Etifeddiaeth Bevan, Sicrhau GIG Yfory</u> <i>Nygaire Bevan</i>	4
<u>Materion Iechyd: Diffodd y Tap – O Drin Salwch i Greu Iechyd yng Nghymru</u> <i>Yr Athro Kelechi Nnoaham</i>	6
<u>Materion Iechyd: Pam mae angen i Gymru Drin Lles Ariannol fel Blaenoriaeth Iechyd</u> <i>Fran Targett OBE</i>	8
<u>Materion Iechyd: Pam Mae'n Rhaid i Gymru Ymrwymo o'r Diwedd i System Rheoli Ansawdd Ffurfiol</u> <i>Yr Athro Ewan B Macdonald CBE</i>	10
<u>Materion Iechyd: Atebion yr 21ain Ganrif ar gyfer Heriau'r 21ain Ganrif</u> <i>Yr Athro George Crooks OBE</i>	12
<u>Materion Iechyd: O Anrhefn i Ddiwylliant – Pam mae'n Rhaid i Gymru Newid ei Meddylfryd i Drawsnewid Iechyd a Gofal</u> <i>Yr Athro Fonesig Sue Bailey</i>	14
<u>Materion Iechyd: Ble bydden ni heb y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru?</u> <i>Sue Evans OBE</i>	16
<u>Materion Iechyd: Pam mai Dewrder ac nid Pwyll fydd yn Penderfynu Dyfodol Iechyd a Gofal yng Nghymru</u> <i>Dr Helen Howson</i>	18

Maniffesto Comisiwn Bevan

Materion Iechyd: Creu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynaliadwy yng Nghymru

Mae Cymru ar adeg dyngedfennol. Mae'r pwysau ar ein system iechyd a gofal yn cynyddu, mae anghydraddoldebau'n dwysáu, ac mae anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn galw am atebion beiddgar a hirdymor. Bydd y dewisiadau a wneir yn y blynyddoedd nesaf yn siapio nid yn unig dyfodol y GIG a gofal cymdeithasol, ond iechyd a lles pobl a chymunedau ledled Cymru.

Mae Comisiwn Bevan yn cyflwyno'r maniffesto hwn i ddarparu gweledigaeth glir ac annibynnol ar gyfer sicrhau system iechyd a gofal gynaliadwy a theg sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Wedi'i seilio ar dystiolaeth, ac wedi'i danategu gan egwyddorion gofal iechyd doeth ac arloesi, mae'r maniffesto hwn yn nodi'r camau y credwn sy'n hanfodol i adeiladu dyfodol iachach, tegach ac yn fwy gwydn i bobl ac i Gymru ei hun.

Credwn fod **materion iechyd**, i unigolion, i gymunedau ac i'r genedl. Drwy ganolbwyntio ar atal, defnyddio ein hadnoddau'n ddoeth ac ail-lunio ac arloesi gwasanaethau i ddiwallu anghenion, gall Cymru arwain y ffordd wrth greu system gynaliadwy sy'n darparu'n wirioneddol i bobl ac gyda phobl.

Dyma ein galwad am uchelgais, am ddewrder ac am gyfrifoldeb ar y cyd. Mae dyfodol iechyd a gofal yng Nghymru yn dibynnu ar y penderfyniadau a wnawn heddiw.

Ein Sylfeini ar Gyfer y Dyfodol

Mae ein galwadau maniffesto wedi'u seilio ar ein gwaith a'n meddwl hyd yma, tystiolaeth ryngwladol ehangach ac ymgysylltiad helaeth â phobl a gweithwyr proffesiynol. Maent yn cynnwys:

Sylfeini ar Gyfer y Dyfodol

- Pobl a Chymunedau Gwydn ac Adnoddol
- Gofal Doeth, Integredig ac Lles Gyfartal
- Gweithlu, Gwasanaethau a Systemau Cynaliadwy
- Diwylliant Deinameg, Arloesol ac Trawsnewidiol

Pwynt Tro: Uno ar gyfer Dyfodol Iechyd a Gofal yng Nghymru

Daeth ein Uwchgynhadledd ddiweddar â phrif arweinwyr o bob cwr o Gymru ynghyd, gan nodi themâu a chamau gweithredu sy'n galw am atal, cydweithio, arloesi a chynaliadwyedd hirdymor. Mae'r rhain i gyd wedi llywio'r tair ymrwymiad craidd yn y maniffesto hwn:

Ymrwymiad 1 – Materion Iechyd: Cadw pobl yn iach, yn gyfrannol ac yn weithgar ar bob cam o fywyd

Mae Cymru lewyrchus yn dibynnu ar gefnogi pobl i aros yn iach ac yn weithgar drwy gydol eu bywydau, o'r blynyddoedd cynnar hyd at henaïnt. Rhaid i Gymru greu amgylcheddau, gwasanaethau a chymunedau sy'n grymuso pobl i fyw bywydau iach, cysylltiedig a boddhaus.

Credwn y dylai Cymru:

- Roi'r dechrau gorau posibl i bob plentyn drwy gefnogaeth gref yn y blynyddoedd cynnar, gwybodaeth a sgiliau iechyd i deuluoedd i atal salwch.
- Hyrwyddo lles yn y gweithle, gan ymgysylltu â chyflogwyr ac annog pobl i wneud newidiadau, gan gydbwyso iechyd â'u cyfrifoldebau bob dydd.
- Cefnogi annibyniaeth yn hwyrach mewn bywyd, gan sicrhau bod pobl hŷn yn gallu byw'n iach ac yn dda gartref ac yn eu cymunedau lleol.
- Mabwysiadu dull cymdeithas gyfan: mae iechyd da'n dibynnu ar dai, addysg, gwaith, yr amgylchedd a'r gymuned – nid ysbytai a lleoliadau gofal iechyd yn unig.

Pam mae hyn yn bwysig:

- Yn adeiladu pobl wydn a chymunedau llewyrchus
- Yn lleihau pwysau ar ysbytai a gofal cymdeithasol
- Yn cryfhau cynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol
- Yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ledled Cymru

Gweithredu: Dylai Cymru:

- Blaenoriaethu atal ac ymyrraeth gynnar, gan greu amgylcheddau cefnogol ac annog newid.
- Gwreiddio iechyd ym mhob polisi: sicrhau bod strategaethau tai, trafnidiaeth, addysg a chyflogaeth yn ystyried eu heffaith ar ganlyniadau iechyd.
- Gweithio mewn partneriaeth â phobl a sefydliadau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol, gan harneisio sgiliau ac adnoddau ar draws cymdeithas, gan gynnwys gwirfoddolwyr.
- Defnyddio offer digidol i helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain.
- Rhoi dechrau teg i bob plentyn drwy wneud blynyddoedd cynnar iach yn flaenoriaeth genedlaethol.

Ein neges: Cadw pobl yn iach ar bob cam o fywyd yw carreg sylfaen system iechyd a gofal gynaliadwy a chymunedau llewyrchus.

Ymrwymiad 2 – Materion Iechyd: Bod yn ddoeth a defnyddio pob sgil ac adnodd yn effeithiol – stopio gwastraff a gweithgaredd sy'n ychwanegu yn ychwanegol llai o werth

Mae system iechyd a gofal gynaliadwy yn gofyn i bawb weithio gyda'i gilydd, gan wneud y defnydd gorau o'r holl sgiliau ac adnoddau sydd ar gael. Rhaid inni ymgysylltu â chefnogaeth ehangach y gymuned a rhoi terfyn ar arferion sy'n gwastraffu adnoddau, yn dyblygu gwaith neu'n methu gwella canlyniadau. Dylem ailgyfeirio egni at yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i bobl.

Credwn y dylai Cymru:

- Diweddau arferion gwastraffus neu werth isel, e.e. mewn meddyginiaethau, triniaethau a gwasanaethau.
- Dileu dyblygu drwy dorri siloau, integreiddio gwasanaethau a rhannu modelau profedig ledled Cymru.
- Symud o or-feddyginiaeth tuag at ragnodi cymdeithasol, hunanreolaeth ac arloesiadau eraill i reoli cyflyrau iechyd.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na gweithgarwch yn unig.
- Adolygu ac adnewyddu sgiliau, rolau a chyfrifoldebau i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Pam mae hyn yn bwysig:

- Yn adeiladu system fwy effeithlon, gwydn ac o ansawdd uchel
- Yn rhyddhau ac yn ailgydbwyso adnoddau i ddiwallu anghenion pobl yn well
- Yn dangos arweinyddiaeth ddoeth a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar werth
- Yn ymgysylltu â sgiliau ac adnoddau ehangach y tu allan i'r system iechyd a gofal

Gweithredu: Dylai Cymru:

- Defnyddio tystiolaeth a data i lywio gwasanaethau ac adnabod arferion gwerth isel.
- Cynnwys staff, pobl a chymunedau mewn penderfyniadau a chyd-ddylunio gwasanaethau.
- Cryfhau cydweithio traws-sector a dysgu ar y cyd.
- Defnyddio potensial llawn data, technoleg ac AI mewn iechyd a gofal.

Ein neges: Rhaid i Gymru ofyn y cwestiwn anodd: Beth allwn ni roi'r gorau i'w wneud, neu ei wneud yn wahanol? Dim ond wedyn y gallwn adeiladu system ddoeth, gynaliadwy sy'n darparu gofal o ansawdd uchel ac sy'n rhoi gwerth i bobl.

Ymrwymiad 3 – Materion Iechyd: Trawstrywyd a chreu system iechyd a gofal deinameg sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Mae angen system iechyd a gofal ddeinameg ar Gymru sy'n gallu addasu i anghenion y dyfodol. Mae hyn yn gofyn am arweinyddiaeth feiddgar, trawsnewid ystyrlon a mabwysiadu arloesi'n gyflymach. Mae hefyd yn dibynnu ar weithlu sydd â'r sgiliau, yr hyder a'r gefnogaeth i weithio mewn ffyrdd newydd. Rhaid i ddigidol, data a thechnoleg fod yn alluogwyr craidd i wella mynediad, cynhyrchiant a chanlyniadau.

Credwn y dylai Cymru:

- Symud o newid bach i drawsnewid system gyfan, gan ail-ddylunio gwasanaethau gyda phobl ac o'u hamgylch.
- Buddsoddi mewn gweithlu medrus, hyblyg a grymus, gyda rolau newydd, llwybrau gyrfa a ffyrdd newydd o weithio.
- Cyflymu trawsnewid digidol, gan wneud gofal digidol a galluogi data yn ddiofyn lle bo'n briodol.
- Mabwysiadu, lledaenu a graddio arloesi'n gyflym, gan leihau amrywiad a rhoi terfyn ar ddibyniaeth ar fodelau hen ffasiwn.
- Creu diwylliant sy'n annog dysgu ar y cyd ac atebion ar y cyd.

Pam mae hyn yn bwysig:

- Yn adeiladu system wydn, addasadwy sy'n gallu ymateb i alw'r dyfodol.
- Yn gwella profiad staff, cadw a chynhyrchiant.
- Yn galluogi gofal mwy personol, hygyrch ac amserol.
- Yn gwneud defnydd gwell o sgiliau ac adnoddau drwy wasanaethau craff, digidol.
- Yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor a gwell canlyniadau.

Gweithredu: Dylai Cymru:

- Buddsoddi mewn sgiliau digidol, arweinyddiaeth drawsnewidiol a gallu newid ar draws y gweithlu.
- Defnyddio data i gyd-ddylunio modelau gofal newydd gyda staff, pobl a chymunedau.
- Sefydlu fframwaith cenedlaethol atebol i fabwysiadu ac ymledu arloesi'n gyflym ledled Cymru.
- Mesur yr hyn sy'n bwysig, gan sicrhau bod data a mesurau perfformiad yn cefnogi canlyniadau iechyd.

Ein neges: Rhaid inni symud i ffwrdd o wneud yr un peth a disgwyl canlyniadau gwahanol. Mae hyn yn gofyn am amgylchedd cefnogol lle rydym yn gweithio gyda'n gilydd i reoli risg, manteisio ar gyfleoedd a gyrru newid systemig.

Mae'r Dyfodol yn Dechrau Nawr

Mae gan Gymru gyfle i lunio dyfodol lle mae iechyd a lles nid yn unig yn cael eu diogelu ond yn cael eu hadfywio ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae'r heriau sy'n wynebu ein system iechyd a gofal yn sylweddol, ond nid ydynt yn anorchfygol. Drwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, cadw pobl yn iach, defnyddio ein hadnoddau'n ddoeth ac ail-lunio iechyd a gofal o amgylch anghenion pobl, gall Cymru adeiladu system decach, gynaliadwy ac yn fwy gwydn.

Credwn, drwy weithio gyda'n gilydd ar draws cymunedau, sectorau a llywodraeth, y gall Cymru arwain y ffordd unwaith eto, yn union fel y gwnaeth Aneurin Bevan wrth osod sylfeini'r GIG. Drwy ddal ati i feithrin yr un ysbryd o uchelgais, gweledigaeth a phwrpas ar y cyd, gallwn greu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n wirioneddol addas ar gyfer y dyfodol.

Mae Comisiwn Bevan yn barod i gefnogi'r ymdrech genedlaethol hon gyda mewnwelediad annibynnol, syniadau beiddgar, trosi meddwl yn ymarfer ac ymrwymiad diwyro i ofal doeth a theg.

Materion Iechyd. Mae'r Dyfodol yn Bwysig. Nawr yw'r Eiliad i Weithredu.

Materion Iechyd: Anrhydeddu Etifeddiaeth Bevan, Sicrhau GIG Yfory

Nygaire Bevan

Mae'r GIG yn fwy nag un o gyflawniadau gorau Prydain, dyma guriad calon ein cenedl. Yng Nghymru, mae'n ddyletswydd ymddiriedol arnom i'w ddiogelu. Adeiladodd fy hen ewythr, Aneurin Bevan, y gwasanaeth hwn ar yr egwyddor tegwch, yn benderfynol y dylai gofal iechyd o safon fod ar gael i bawb, am ddim, pan fo ei angen arnynt. Roedd wedi goresgyn adfyd yn ei fywyd ei hun â gwydnwch a gweledigaeth, a'r un penderfynoldeb hwnnw a'i sbardunodd i greu system sydd wedi trawsnewid bywydau miliynau o bobl.

Heddiw, wrth i ni edrych tuag etholiadau'r Senedd, mae'n rhaid i ni ofyn i'n hunain: a ydym yn barod i ddangos yr un dewrder a dychymyg i sicrhau bod y GIG yn goroesi ond hefyd yn ffynnu ar gyfer cenedlaethau i ddod? Oherwydd, ac mae'n rhaid i ni fod yn glir am hyn, mae **iechyd yn bwysig**, a heb weithredu'n feiddgar, mae etifeddiaeth Bevan mewn perygl.

Mae stori Aneurin Bevan yn un o gadernid ac argyhoeddiad. Bachgen a gafodd amser anodd yn yr ysgol, oedd ag atal dweud, a ddysgodd ei hun i lefaru drwy ddarllen llenyddiaeth gymhleth yn uchel wrth gerdded mynyddoedd ei gartref. Roedd y gwydnwch hwnnw'n llwybr at fywyd cyhoeddus, yn gyntaf fel cynghorydd ac yna fel AS. Wrth wraidd ei wleidyddiaeth roedd tegwch a chyfiawnder, ac roedd ei weledigaeth ar gyfer y GIG yn syml ond yn radical: dylai gofal iechyd fod ar gael i bawb, dylai fod o ansawdd uchel, ac am ddim pan fo ei angen ar bobl.

Wynebodd wrthwynebiad ffyrnig, ond ni phallodd ei ddyfalbarhad byth. Gydag angerdd a phenderfynoldeb, llywiodd y ddeddfwriaeth drwy'r Senedd a chafodd y GIG ei sefydlu. Y GIG oedd ei rodd i'r bobl, gwasanaeth a gafodd ei adeiladu ar egwyddor, nid ar fraint na pholisi yn unig. Fel y dywedodd Nye: **"Nid oes gan unrhyw gymdeithas hawl i'w galw ei hun yn waraidd os gwrthodir cymorth meddygol i rywun sâl am nad yw'n gallu talu amdano."**

Felly, beth fyddai barn Nye am y GIG heddiw? Byddai'n parhau i weld gwasanaeth sy'n cael ei garu a'i goleddu (er ei fod yn cael ei gymryd yn ganiataol gan y cyhoedd yn rhy aml), sy'n bodloni anghenion miliynau o bobl bob dydd.

Ond byddai hefyd yn gweld y craciau'n ehangu. Gorddibyniaeth ar 'atebion meddygol', lle byddai pobl a chymunedau wedi llenwi'r bwlch gynt. Gwastraff sy'n anweladwy i'r rhan fwyaf o bobl ond sy'n defnyddio adnoddau gwerthfawr ac mae angen ei ddileu. Camddefnydd ac aneffeithlonrwydd gwasanaethau sy'n gwanhau'r system ac mae angen i ni eu hwynebu. Ac yn anad dim, yr angen brys am ddiwylliant newydd o gyfrifoldeb a rennir ar gyfer iechyd a lles.



Mae Nygaire Bevan yn Gomisiynydd Bevan, yn Aelod o Fwrdd Grŵp Codi, ac yn Arolygydd i Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae hi'n nith-ynghyfraith Aneurin Bevan, sylfaenydd y GIG, a dechreuodd ei gyrfa fel nyrs cyn cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol yn y 1980au. Mae ganddi fwy na 40 mlynedd o brofiad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gan Gymru, gyda'i nifer cymharol fach o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG, y gallu i weithredu'n benderfynol ac i arwain drwy esiampl. Ond eto, yn rhy aml rydym yn cael ein parlysu gan reolaeth ganolog, gan y tuedd i osgoi risg, gan ddiffyg hyder yn enw pwyll, a chan ddiffyg dewrder gwleidyddol ac arweinyddiaeth feiddgar. Nid dyma'r foment i betruso. Dyma'r foment i brofi bod **'iechyd yn bwysig'**, bod gweledigaeth Bevan yn fwy na chyflawniad hanesyddol, ond yn fandad byw sy'n ffynnu. Os nad ydym yn gweithredu nawr, mae risg ein bod ni'n bradychu ei etifeddiaeth, ac yn amddifadu'r cenedlaethau i ddod o'r gwasanaeth y brwydrodd mor galed i'w adeiladu.

Rydym eisoes yn gwybod beth mae angen ei wneud. Mae Comisiwn Bevan eisoes wedi amlinellu ei feddylfryd ochr yn ochr â chefnogi mwy nag 800 o fentrau Esiamplwyr Bevan ledled Cymru, i helpu i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol, arloesol o fynd i'r afael â'r heriau. Mae hyn wedi dangos bod newid yn bosib gan adeiladu ar gwybodaeth, syniadau, angerdd ac ymrwymiad y rhai hynny sy'n gweithio yn y system.

Ond nid yw arloesi ar ei ben ei hun yn ddigon. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd ar frys i fabwysiadu, lledaenu a gwreiddio'r trawsnewidiadau hyn ym mhob bwrdd iechyd, gan fod yn agored i syniadau, profiadau a gwybodaeth â pharch a sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhoi ar waith yn gyson. Bryd hynny gallwn gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl wrth greu GIG mwy darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Dyma'r foment i fod yn feiddgar. Mae'n rhaid i ni aildanio egni a phenderfynoldeb Bevan. Mae'n rhaid i wleidyddion ac arweinwyr iechyd fod yn ddigon dewr i weithredu, nid i siarad yn unig.

A dyma hanfod y mater: mae'n rhaid i ni symud i ffwrdd o eiriau a rhethreg at weithredu a chyflawni. Ni fydd areithiau ac addewidion yn gwella cleifion, yn lleihau rhestrau aros, nac yn cael gwared ag aneffeithlonrwydd. Yr hyn a fydd yn gwneud gwahaniaeth yw gweithredu, cyflwyno arferion arloesol sydd wedi cael eu profi, mynd i'r afael â gwastraff yn uniongyrchol, grymuso cymunedau i gymryd cyfrifoldeb am iechyd, a mynnu bod arweinwyr yn atebol am gyflawni.

Nid yw'r GIG yn gallu goroesi ar deimladau'n unig. Mae'n rhaid iddo addasu, arloesi ac esblygu. Mae amddiffyn etifeddiaeth Bevan yn golygu amddiffyn yr egwyddorion sylfaenol wrth fod yn agored i newid ac yn barod i'w dderbyn. Mae hynny'n gofyn am weledigaeth, ac arweinyddiaeth ddewr a gaiff eu trosi'n ganlyniadau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl.

Wrth i etholiadau'r Senedd agosáu, mae'r her yn glir: a fyddwn yn anrhydeddu etifeddiaeth Bevan, nid yn unig mewn geiriau ond mewn gweithredoedd? Cafodd y GIG ei sefydlu ar sail dewrder ac argyhoeddiad. Fel y dywedodd fy hen ewythr: **"Bydd y GIG yn parhau cyhyd a bod pobl yn parhau â ffydd i ymladd drosto."** Bydd yn goroesi os ydym yn dangos yr un argyhoeddiad a phenderfynoldeb heddiw, nid drwy rethreg ond drwy weithredu brys. Dim ond bryd hynny bydd gennym GIG sy'n gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol.



"Bydd y GIG yn parhau cyhyd a bod pobl yn parhau â ffydd i ymladd drosto."

Aneurin Bevan

Materion Iechyd: Diffodd y Tap – O Drin Salwch i Greu Iechyd yng Nghymru

Yr Athro Kelechi Nnoaham

Yn gynnar yn fy hyfforddiant iechyd cyhoeddus, fe wnaeth darlun syml grisialu cysyniad ataliad. Mae person yn dychwelyd adref i ddarganfod bod ei gartref dan ddŵr, ac mae'n dechrau gwagio'r dŵr gan ddefnyddio bwced. Mae'r reddf yn ddealladwy, ond mae'r rhesymeg yn ddiffygiol. Y datrysiaid go iawn yw diffodd y tap yn hytrach na gwagio'r dŵr yn gynt. Mae'n ein hatgoffa bod **iechyd yn fwyaf pwysig pan fyddwn yn gweithredu cyn i niwed gael ei wneud**, nid ar ôl iddo gael ei wneud.

Er gwaethaf ein parch defodol at y dywediad "mae atal yn well na gwella", mae GIG Cymru, fel system iechyd ehangach y DU, yn parhau i fod yn wasanaeth triniaethau, yn y bôn. Yn hytrach na gofyn a yw ataliad yn gweithio, y cwestiwn yw, pam, ar ôl blynyddoedd o rethreg, ein bod wedi methu adeiladu system sy'n ymgorffori'r gwirionedd hwn. I Gymru, sef man geni'r GIG sydd wedi'i wreiddio ar gysyniadau ataliad, cyffredinolrwydd a chyfiawnder cymdeithasol, mae'r methiant hwn yn fwy na gwall polisi. Mae'n bradychu ysbryd sylfaenol y gwasanaeth, ac yn esgeuluso'r realiti syml fod iechyd yn bwysig ym mhob agwedd ar ein bywyd cenedlaethol.



Mae'r Athro Kelechi Nnoaham yn Gomisiynydd Bevan, ac yn Gyn-gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gyda phrofiad helaeth mewn iechyd poblogaethau, ataliad a thrawsnewid y system iechyd yng Nghymru.

Mae Cymru mewn sefyllfa unigryw i wneud yn well. Mae datganoli'n darparu'r gallu i weithredu ar draws sectorau. Mae ein poblogaeth yn agored i newid. Nid diffyg uchelgais sydd gennym, ond diffyg gallu i ddilyn yr uchelgais honno. Nid yw'r agenda ataliad yn methu oherwydd diffyg tystiolaeth; mae'n methu oherwydd ei fod yn gwrthdaro â system sydd wedi'i strwythuro ar gyfer gofal aciwt.

Yn gyntaf, mae GIG Cymru yn cael ei drefnu, ei ariannu a'i feirniadu bron yn gyfan gwbl ar weithgarwch: derbyniadau, llawdriniaethau, rhestrau aros. Caiff llwyddiant ei fesur gan faint o salwch rydyn ni'n ei drin, nid faint rydyn ni'n ei atal. Mae cyllidebau'n gwobrwyo ymyrraeth, nid niwed sydd wedi'i osgoi. Nid yw bwrdd iechyd yn cael cyllid ychwanegol oherwydd bod cyfraddau diabetes math 2 yn disgyn yn ei boblogaeth; mae'n cael ei wobrwyo am drin mwy o gymhlethdodau unwaith y mae'r clefyd wedi ymwreiddio.

Yn ail, mae ataliad yn dioddef yn sgîl realiti wleidyddol greulon: anweledigrwydd. Mae gwleidyddion ac arweinwyr systemau yn ennill cydnabyddiaeth o weithredoedd amlwg megis agor adrannau newydd mewn ysbysai. Diffinnir llwyddiant ataliol gan bethau nad ydynt yn digwydd: y trawiad ar y galon nad yw wedi digwydd, y cancer nad yw wedi datblygu, y plentyn nad yw wedi mynd yn ordew. Mae'r canlyniadau hyn yn araf, yn ystadegol ac yn anodd eu dramatiddio. Mae eu manteision yn aml yn dod i'r amlwg ymhell ar ôl cyfnod o bum mlynedd yn y Senedd. Mae credyd gwleidyddol yn llifo i lawr i wella, yn hytrach nag i fyny i achosi.

Yn drydydd, mae bias diwylliannol yn elfen ddofn. Rydym yn gweithredu â dealltwriaeth sydd wedi'i meddygoli am ataliad, blaenoriaethu sgrinio a diagnosis cynnar yn hytrach na'r gwaith anos o fynd i'r afael â thlodi, tai, bwyd a chyflogaeth. Caiff gofal aciwt ei ddathlu, ond mae effaith hirdymor gwaith ym maes iechyd cyhoeddus yn cael ei hanwybyddu. Mae'r bias hwn yn llywio disgwyliadau'r cyhoedd: mae pobl yn chwilio am atebion ar unwaith yn hytrach na buddsoddiad hirdymor yn sylfaeni iechyd.

Yn olaf, mae ataliad yn methu oherwydd bod cyfrifoldeb yn cael ei rannu. Dylanwadir ar iechyd gan dai, trafnidiaeth, addysg, a gwaith, ond mae cyfrifoldeb am y ffactorau hyn wedi'i ledaenu ar draws sefydliadau ar wahân gyda chymhellion ariannol gwrthdrawiadol. Yn anaml iawn y mae'r sefydliad sy'n buddsoddi mewn ataliad yn cael yr arbedion. Mae meddyg teulu sy'n atal

derbyniad i'r ysbyty yn arbed arian i'r ysbyty, nid i ofal sylfaenol. Nid yw'n syndod bod yr arian y mae'r GIG yn ei wario ar ataliad wedi disgyn yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf.

Y canlyniad yw system sy'n anghynaliadwy yn ariannol ac sy'n anghyfiawn yn gymdeithasol. Rydym yn parhau i arllwys adnoddau i ddŵr, ond does neb yn gwirio a yw'r tap wedi'i ddiffodd. Mae cyflyrau hirdymor y gellir eu hatal, megis canser a diabetes, nawr yn defnyddio cyfran gynyddol o gyllideb y GIG. Nid bod yn anlwus yw hyn; dyma ganlyniad rhagweladwy system sy'n galluogi galw i gael ei gynhyrchu'n uwch.

Mae'r gost gymdeithasol hyd yn oed yn fwy difrifol. Mae'r bobl sy'n dioddef yn dod yn bennaf o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Yng Nghymru, mae côd post yn parhau i fod yn rhagfynegydd cryfach o iechyd na'r côd genetig. Gall plentyn sy'n cael ei eni yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ddisgwyl degawd yn llai o iechyd da na phlentyn sy'n cael ei eni yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae tlodi yn achosi effeithiau dros gyfnod o amser: ysgogi straen, arwain at lai o ddewisiadau bwyd, a gorfodi teuluoedd i fyw mewn tai oer a llaith sy'n arwain at salwch.

Mae system sy'n llifo i lawr yn trin yr asthma gan ddefnyddio anadlydd, ond mae'n anwybyddu'r llwydni. Mae'n meddygoli niwed cymdeithasol, ac yna'n rhoi'r bai ar unigolion am eu "dewisiadau ffordd o fyw", nad oedd ganddynt y rhyddid i'w gwneud yn y lle cyntaf, gan sefydlu anghydraddoldeb ar draws cenedlaethau.

Dyma'r paradocs: rydym yn gwario llawer o arian ac yn ymyrryd yn aml, ond mae iechyd y boblogaeth yn parhau i fod yn wael. Er bod disgwyliad oes wedi cynyddu, mae disgwyliad oes iach wedi aros yn ei unfan. Mae pobl yn byw'n hirach ond maen nhw'n fwy sâl. Mae Comisiwn Bevan wedi rhybuddio droeon y bydd GIG Cymru'n parhau i fod yn anghynaliadwy yn ariannol, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol os na fydd yn blaenoriaethu ataliad ac iechyd y cyhoedd. **Os yw iechyd yn bwysig, ni ellir amddiffyn ein tafl-lwybr cyfredol.**

Trawsnewid o Reoli Salwch i Greu Iechyd

Er mwyn dianc o'r cylch adweitheddol hwn, mae angen mwy na strategaethau ac areithiau. Mae angen ailfeddwl sut rydyn ni'n diffinio llwyddiant, yn dyrannu arian ac yn rhannu cyfrifoldeb.

Yn gyntaf, rhaid i Gymru wreiddio a blaenoriaethu Rheoli Iechyd y Boblogaeth yn llawn. Mae hyn yn cynnwys symud o ofal argyfwng unigolion i reoli iechyd y boblogaeth yn rhagweithiol. Drwy integreiddio data ar draws gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol, tai, ac addysg, gallwn nodi risgiau yn gynt, targedu ymyriadau'n synhwyrol, a gwneud ataliad yn amlwg ac yn fesuradwy. Nid yw'r ymagwedd hon yn ddamcaniaethol. Rydym wedi dangos ei dichonoldeb yng Nghymru. Yr her yw'r raddfa a'r ewyllys wleidyddol.

Yn ail, rhaid i ni ailstrwythuro cymhellion ariannol a pherfformiad. Dylai modelau sy'n seiliedig ar werth ac sy'n blaenoriaethu canlyniadau iechyd ddisodli cyllid sy'n seiliedig ar weithgarwch. Dylai cyllidebau'r GIG, llywodraeth leol a gofal cymdeithasol gael eu hel ynghyd i sicrhau bod mesurau ataliol effeithiol yn ymarferol ac yn gost-effeithiol, ac yn cael eu diogelu yn ystod cyfnodau y mae gofyn mawr amdanynt.

Yn drydydd, mae angen atebolrwydd sy'n para y tu hwnt i gylchredau etholiadol ar atal. Dylai "Iechyd ym Mhob Polisi" fod yn ddyletswydd statudol ar draws llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â rhestrau aros, mae angen dangosfwrdd cyhoeddus arnom, sy'n olrhain pethau megis disgwyliad oes iach a lles plant – metrigau sy'n adlewyrchu a ydyn ni wir yn creu iechyd.

Yn olaf, mae angen cytundeb cymdeithasol newydd arnom. Ni ellir sicrhau ataliad gan y GIG yn unig. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu fel gwladwriaeth alluogi, gan ddefnyddio ei phwerau i lunio amgylchoedd sy'n sicrhau mai'r dewis iach yw'r dewis hawdd. Yn gyfnewid am hyn, dylid sicrhau bod gan y cyhoedd yr hyn sydd ei angen arnynt i'w helpu i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, i gyd-greu gwasanaethau ac adeiladu cymunedau.

Mae Cymru wedi parhau i ganolbwyntio ar drin iechyd gwael yn hytrach na mynd i'r afael â'i achosion, ond gall hyn newid, ac fe ddylai newid. Fe wnaeth Aneurin Bevan ei hun gydnabod bod iechyd yn ddibynnol ar amodau byw yn ogystal â gofal meddygol, ac y dylai cymdeithas ganolbwyntio ar atal salwch, yn hytrach na'i drin yn unig. Mae diffodd y tap yn bosibl ac yn angenrheidiol. Mae'r her sydd un o'n blaenau yn ddifrifol: parhau i reoli salwch ar gost fwy nag erioed neu adeiladu cenedlaeth sy'n creu iechyd o'r diwedd.

Materion Iechyd: Pam mae angen i Gymru Drin Lles Ariannol fel Blaenoriaeth Iechyd

Fran Targett OBE

Ar ôl treulio oes yn gweithio ochr yn ochr â phobl sy'n wynebu caledi ariannol, mae'n amhosibl anwybyddu un gwirionedd: **mae iechyd yn bwysig**, ac ni all Cymru ddatrys ei heriau iechyd hirdymor heb wynebu'r realiti economaidd sy'n effeithio ar fywydau pobl pob dydd.

Rhaid inni ddelio ar frys â rhestrau aros, pwysau gofal brys a chyflwr pryderus iechyd ein poblogaeth. Fodd bynnag, oni bai ein bod yn mynd i'r afael â'r ansicrwydd ariannol sy'n sail i gynifer o'r problemau hyn, byddwn yn trin symptomau, nid achosion.

Nid moethusrwydd yw lles ariannol. Mae'n ffactor penderfynyn sylfaenol o iechyd. Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn ei ddisgrifio fel teimlo'n ddiogel ac mewn rheolaeth o'ch cyllid, gallu talu biliau heddiw, ymdopi â'r annisgwyl, ac adeiladu dyfodol sefydlog.

Pan na all pobl fforddio'r pethau sylfaenol, bwyd, gwresogi, trafnidiaeth, rhent, mae eu hiechyd yn dioddef. Mae lles ariannol gwael yn byrhau'r blynyddoedd y mae pobl yn byw mewn iechyd corfforol a meddyliol da ac yn cyfrannu at farwolaeth gynamserol.

Mae'n gwaethygu cyflyrau presennol, yn achosi trallod meddwl, ac yn gorfodi pobl i gylch lle mae pryderon ariannol a phroblemau iechyd yn atgyfnerthu ei gilydd.

Mae straen ac ansicrwydd yn gwneud dewisiadau iach yn anoddach. Mae pobl sydd dan straen ariannol yn llai tebygol o fwyta'n iach neu wneud ymarfer corff, ac yn fwy tebygol o droi at ymddygiadau niweidiol fel ysmegu, alcohol neu gamblo.

Mae cartrefi oer, llaith, na ellir eu fforddio i'w gwresogi, yn gwaethygu salwch anadlol. Yn ogystal, mae iechyd gwael ei hun yn cyfrannu at ansefydlogrwydd ariannol, gan gyfyngu ar fynediad at addysg, gwaith diogel a'r gwasanaethau cymorth a allai helpu pobl i adennill rheolaeth.

Nid yw'r baich yn cael ei rannu'n gyfartal. Mae ymchwil o Brifysgol Bryste (adroddiad Lles Ariannol ac Ethnigrwydd 2024) yn dangos bod perchnogion tai croen gwyn ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddiogel yn ariannol (30%) na'r rhai o gefndiroedd du neu ethnig eraill (15%), ac mae grwpiau fel rhentwyr cymdeithasol, rhieni sengl a phobl ag anableddau neu gyflwr hirdymor yn llawer mwy tebygol o brofi lles ariannol isel. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn ymestyn ar draws teuluoedd, cymunedau a chenedlaethau.



Mae Fran Targett OBE yn Gomisiynydd Bevan ac yn Gadeirydd annibynnol Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae ganddi ddegawdau o arweinyddiaeth ar draws Cyngor ar Bopeth, WCVA, a chyrrff cyhoeddus cenedlaethol, ac ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu ar Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Grŵp Cyngori ar Hawliau Dynol.

Rhaid i Gymru iach fod yn Gymru Ddiogel yn Ariannol

Os ydym o ddifrif ynglŷn â gwella iechyd yng Nghymru, rhaid i ni gydnabod bod **materion iechyd yn bwysig** ym mhob agwedd ar fywyd, gan gynnwys yr agwedd ariannol. Rhaid trin lles ariannol fel un o'r blociau sylfaen craidd ar gyfer iechyd y cyhoedd, yr un mor hanfodol â mynediad at feddygon teulu neu ysbytai. Pan fydd pobl yn teimlo'n ddiogel gyda'u harian, maent yn hapusach, yn profi llai o straen cronig, yn cymryd mwy o ran yn eu cymunedau, ac yn gallu gwneud dewisiadau iachach sy'n arwain at fywydau hirach ac iachach. Maent hefyd yn dibynnu llai ar wasanaethau'r GIG, gan leddfu'r pwysau ar system sydd eisoes wedi'i hystyngi i'w therfynau.

Nid yw hyn yn ymwneud yn unig â sicrhau bod gan bobl "ddigon" o arian i fod yn ddiogel yn ariannol. Mae'n ymwneud â sicrhau bod gan bobl yr hyder, y sgiliau a'r gefnogaeth i reoli eu harian drwy gydol eu hoes, o arian poced i bensiynau. Mae gan ysgolion, gweithleoedd, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus rôl i'w chwarae wrth adeiladu'r sylfaen hon, gan sicrhau bod pobl a chymunedau'n ffynnu.

Dylai atal fod yn fwy na slogan

Mae gan Gymru eisoes y fframweithiau i gefnogi'r newid hwn. Mae Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus Comisiwn Bevan, y Model Cymdeithasol o Iechyd a Gofal, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyd yn pwysleisio atal, tegwch a meddwl hirdymor. Mae Strategaeth Cymru Can yn ymrwymo cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol afiechyd a lleihau anghydraddoldebau.

Ond rhaid i'r ymrwymadau hyn gyd-fynd â gweithredu nawr. Mae angen Senedd arnom sy'n cydnabod y cysylltiad anwahanadwy rhwng mynediad cyffredinol at iechyd a gofal cymdeithasol, diogelwch economaidd a thai gweddus. Mae angen polisiâu arnom sy'n trin lles ariannol fel blaenoriaeth iechyd y cyhoedd, nid fel ôl-ystyriaeth.

Munud am Ddewrder ac Eglurder

Does dim modd osgoi cost economaidd anghydraddoldeb iechyd. Efallai y bydd angen codi treth i ymdopi â maint yr her, ond mae'r foment hon hefyd yn cynnig cyfle i ailystyried sut rydym yn amddiffyn y rhai sydd mwyaf agored i niwed, yn cryfhau gwydnwch ariannol ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd am byth.

Fel mae fy nghyd-Gomisiynydd Bevan, Syr Michael Marmot, yn ein hatgoffa, **"Does dim byd pwysicach i'r rhai sy'n ymwneud ag iechyd y boblogaeth na lleihau anghydraddoldebau iechyd."** Rhaid i hynny fod yn fesur o'n llwyddiant.

Wrth i Gymru agosáu at etholiadau'r Senedd, mae gennym ddewis: parhau i anwybyddu canlyniadau lles ariannol gwael neu wynebu'r achosion gwreiddiol o ddifrif. Os dewiswn yr olaf, gallwn adeiladu Cymru iachach, decach a mwy gwydn.



All Cymru ddatrys ei heriau iechyd hirdymor heb wynebu'r realiti economaidd sy'n effeithio ar fywydau pobl pob dydd.

Materion Iechyd: Pam Mae'n Rhaid i Gymru Ymrwymo o'r Diwedd i System Rheoli Ansawdd Ffurfiol

Yr Athro Ewan B Macdonald CBE

Ar drothwy etholiadau nesaf Senedd Cymru, mae'r drafodaeth am ddyfodol ein system iechyd a gofal yn dwysáu. Yn yr erthygl gyntaf yn y gyfres hon gan Nye Bevan, gor-nith Aneurin Bevan, fe'n hatgoffwyd na fwriadwyd erioed i egwyddorion sefydlu'r GIG aros yn ddigynnewid. Maent yn galw am wyladwriaeth, adnewyddu a'r dewrder i wynebu gwirioneddau anghyfforddus.

Mae'r cyfraniad hwn yn parhau yn yr ysbryd hwnnw. Mae'n gofyn cwestiwn syml ond dwfn. Sut gall Cymru honni ei bod yn blaenoriaethu ansawdd a diogelwch o flaen popeth arall pan nad oes gennym system rheoli ansawdd ffurfiol, sy'n cael ei harchwilio'n allanol? Os yw **iechyd yn bwysig**, ac mae yn bwysicach nag unrhyw gylch gwleidyddol na dewis sefydliadol, yna dylai diffyg system o'r fath beri pryder.

Nid mân gŵyn dechnegol yw hyn. Dyma garreg sylfaen goll system iechyd a gofal fodern a chynaliadwy, ac mae ei habsenoldeb bellach yn amlwg ledled GIG Cymru.

Gwaddol wedi'i Esgeuluso

Pan benodwyd y diweddar John Wyn Owen yn Gyfarwyddwr cyntaf GIG Cymru, cyflwynodd system rheoli ansawdd ffurfiol er mwyn sicrhau na fyddai gwelliant yn dibynnu ar hap na phersonoliaeth. Cafodd ei wneud yn Gomisiynydd Bevan yn ddiweddarach a mawr fu ei siom pan gafodd ei olynwyr wared â'r system yr oedd ef wedi'i rhoi ar waith.

Mae'r penderfyniad hwnnw wedi atseinio drwy'r degawdau.

Mae Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant gwella ansawdd, gan feithrin staff dawnus ac ymrwymedig sy'n dychwelyd i sefydliadau nad oes ganddynt y strwythurau angenrheidiol i gynnal neu fesur gwelliant. Gellir rhagweld y canlyniad: meysydd rhagoriaeth fan hyn a fan draw, ond dim cynnydd cyson ledled y system.

Yn 2017, cyhoeddodd Comisiwn Bevan Sicrhau Gwelliant Dwys a Chynaliadwy mewn Ansawdd yn GIG Cymru. Cafodd groeso helaeth gan glinigwyr, rheolwyr, undebau llafur a staff rheng flaen. Serch hynny, cytunodd Llywodraeth Cymru i gryfhau deddfwriaeth yn unig, ac nid i orchymyn mabwysiadu system ansawdd ffurfiol, sy'n cael ei harchwilio'n allanol, sef yr argymhelliad canolog.

Mae'n amhosib anwybyddu canlyniadau'r penderfyniad hwnnw bellach.

System dan Bwysau a Heb yr Offer i Wella

Mae dadansoddiadau diweddar yn cyflwyno darlun llym. Mae Cymru yn wynebu:

- Y rhestrau aros hwyaf erioed, gyda chyfnodau aros hirach o lawer na'r rhai hynny yn Lloegr, pan addasir y ffigurau ar gyfer y boblogaeth.



Mae'r Athro Ewan B Macdonald CBE yn Gomisiynydd Bevan ac yn awdurdod blaenllaw ym maes iechyd galwedigaethol ac amgylcheddol. Ef yw Pennaeth y Grŵp Bywydau Gweithio Iach ym Mhrifysgol Glasgow ac yn ystod ei yrfa, mae wedi creu pedwar Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Dychwelyd i'r Gwaith llwyddiannus â chofrestriad ISO.

- Argyfwng yn y gweithlu, sy'n nodedig am fylchau a chynllunio gwael, gan gynnwys meddygon newydd eu hyfforddi sy'n methu sicrhau swyddi yng Nghymru.
- Ansefydlogrwydd ariannol, gyda phob bwrdd iechyd yn torri ei ddyletswydd statudol i gydbwysu'r gyllideb.
- Gwasanaethau iechyd meddwl dan bwysau mawr, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Gwendidau ar lefel y system o ran cynhyrchedd, atebolrwydd ac arweinyddiaeth.

Nid methiannau ar eu pennau eu hunain yw'r rhain. Maent yn symptomau system na fu ganddi erioed ymagwedd gyson at ansawdd, un y gellir ei harchwilio, sy'n rhan annatod ohoni, un sy'n goroesi newidiadau arweinyddiaeth, cylchoedd cyllidebu a newidiadau gwleidyddol.

Mae dogfen Llywodraeth Cymru, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023, yn disgrifio nodweddion system rheoli ansawdd mewn manylder ardderchog. Ond eto mae'n ymatal rhag mynnu bod sefydliadau'n mabwysiadu un. Mae Cymru'n meddu ar iaith ansawdd, ond nid y peirianwaith.

Fel mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Iechyd y Byd, Dr Tedros, yn ein hatgoffa, **"Ni ellir cymryd ansawdd yn ganiataol. Mae'n gofyn am weledigaeth, cynllunio, buddsoddi, tosturi, gweithredu gofalus a monitro trylwyr."** Mae gan Gymru y weledigaeth. Yr hyn nad oes ganddi yw'r ewyllys i weithredu a monitro ac ni ellir goddef hyn mwyach.

Yr Achos dros Orchymyn Safon Ansawdd

Byddai system rheoli ansawdd ffurfiol, a ddilysir yn allanol, yn:

- Darparu cysondeb ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd.
- Amddiffyn gwaith gwella rhag mympwyon newidiadau sefydliadol.
- Rhoi i staff y strwythur a'r hyder i arloesi'n ddiogel.
- Cefnogi lledaeniad systematig arferion arloesol sydd wedi'u profi, gan gynnwys gwaith Enghreifftwyr Bevan, y mae eu heffaith yn cael ei chyfyngu'n rhy aml gan natur anghyson y system.
- Cryfhau atebolrwydd heb ddibynnu ar fiwrocratiaeth lawdrwm, o'r brig i lawr.

Yn hollbwysig, byddai'n sicrhau nad slogan yw ansawdd, ond disgyblaeth.

Mae'r ffordd arall, rhagor o unedau canolog, rhagor o ddangosfyrddau, mwy o oruchwyliaeth o'r brig i lawr, yn cynnig y risg o ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol. Nid oes modd creu ansawdd drwy orchymyn yn unig. Rhaid ei feithrin, ei fesur a'i wella'n barhaus.

Galwad i Greu System Ansawdd sy'n Addas at y Dyfodol yng Nghymru

Os ydym yn wirioneddol ymrwymedig i ansawdd, nid fel dyhead, ond fel gwirionedd gweithredol, yna mae'n rhaid i Gymru fabwysiadu system rheoli ansawdd sy'n cael ei harchwilio'n allanol i'r GIG yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn am arbenigedd proffesiynol, safonau cyson ac ymagwedd sydd wedi'i gwreiddio ym mhob sefydliad. Nid ymarfer biwrocratiaeth yw hwn. Dyma isadeiledd hanfodol diogelwch, cynaliadwyedd ac ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae'r cwestiwn mae Cymru'n ei wynebu nawr yn glir: ydyn ni'n barod i greu system iechyd a gofal lle mae ansawdd wedi'i sicrhau, yn hytrach na chael ei gymryd yn ganiataol, lle rydym yn gweithredu fel pe bai **iechyd yn bwysig** ym mhob penderfyniad a wnawn?

Materion Iechyd: Atebion yr 21ain Ganrif ar gyfer Heriau'r 21ain Ganrif

Yr Athro George Crooks OBE

Nid yw'r heriau sydd ynghlwm wrth gyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel erioed wedi bod mor ddybryd. Mae'r gost o ddarparu gofal iechyd modern yn parhau i gynyddu'n gynt ac yn gynt wrth i welliannau mewn gwyddoniaeth ein galluogi i drin ac, yn aml, sicrhau gwellhad llwyr ar gyfer cyflyrau a fyddai dim ond wedi gallu cael eu rheoli drwy ofal lliniarol yn y gorffennol. Mae cost uchel bron bob tro ynghlwm wrth y gwelliannau gwyddonol hyn, ac mae holl systemau gofal iechyd yn brwydro â'r heriau o benderfynu ar y ffordd orau o fuddsoddi eu hadnoddau. Os yw iechyd yn bwysig, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r gwirioneddau hyn mewn ffordd onest.

Mae'r heriau o ran galw a chapasiti yn enwedig yn ddybryd, ac mae ffactorau niferus gan gynnwys y newidiadau demograffig yn ein poblogaeth a'r cynnydd mewn cyflyrau hirdymor megis amlafiachedd ac eiddilwch yn ychwanegu at yr heriau hyn. Pan fyddwch yn ychwanegu heriau'r gweithlu hefyd, megis recriwtio a chadw staff, a'r gofyniad i uwchsgilio'r gweithlu presennol, mae'n hawdd deall pam bod pethau'n teimlo'n anos ar hyn o bryd!

Mae'n bwysig pwysleisio nad problem yng Nghymru neu'r DU yn unig yw hon, yr un yw'r sefyllfa ym mhob cenedl ar draws y byd. Nid yw rhan fwyaf yr heriau hyn yn newydd, maen nhw wedi bod yn bresennol ers dros 30 mlynedd, ond mae un ffactor sy'n dod i'r amlwg nawr yn mynnu ein sylw os ydym eisiau gwella ein system iechyd a gofal.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nisgwyliadau'r cyhoedd o ran y gwasanaethau a gynigir gan ein system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r dyddiau lle roedd pobl yn fodlon ac yn ddiolchgar am unrhyw wasanaeth a oedd ar gael wedi hen fynd. Mae disgwyliadau pobl lawer yn uwch erbyn hyn, ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd deall pam nad yw gwasanaethau'n cydnabod eu hamgylchiadau personol ac yn darparu ar eu cyfer.

Mae'r ffaith ein bod ni'n byw mewn byd sy'n fwyfwy cysylltiedig, lle mae gan dechnolegau digidol rôl flaenllaw i'w chwarae yn ein bywydau bob dydd, yn creu cyfleoedd i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymateb mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Mae hyn wedi fy arwain i ddyfeisio'r dywediad **"Mae angen atebion yr 21ain ganrif arnom i fynd i'r afael â'n problemau yn yr 21ain ganrif."** Gellir cymharu parhau i neilltuo amser, ymdrech ac arian i ymagweddau a oedd yn addas i ni ddegawd neu ddau yn ôl, gyda rhoi plaster dros glwyf dwfn a chymhleth.

Er mwyn symud ymlaen mewn ffordd adeiladol ac ymarferol, mae'n rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau mentrus. Os byddwn ni'n parhau i reoli cyflyrau hirdymor er enghraifft, yn y ffordd gonfensiynol rydyn ni'n eu rheoli heddiw, ni fydd gan y system gofal iechyd y gallu i reoli cleifion â chlefydau cardiofasgwlaidd neu anadlol yn y blynyddoedd nesaf wrth i'r nifer o gleifion newydd barhau i gynyddu a'r rhai sy'n byw â'u clefydau fyw yn hirach.



Mae'r Athro George Crooks OBE yn Gomisiynydd Bevan ac yn Brif Weithredwr Canolfan Arloesi Iechyd a Gofal Digidol yr Alban. Mae wedi cael gyrfa nodedig yn amrywio o ymarfer clinigol, arweinyddiaeth gofal brys cenedlaethol, a thrawsnewid digidol ar draws systemau iechyd a gofal.

Felly, sut gallwn ni ymdopi? Ni allwn ni gyflogi rhagor o feddygon, nyrsys a therapyddion felateb. Yr unig ateb fforddiadwy yw sicrhau bod ein dinasyddion yn gwneud dewisiadau iechyd a lles mwy gwybodus fel nad ydynt yn cynyddu eu risg o ddatblygu problem iechyd hirdymor, gan greu amgylchedd lle gall pobl reoli a darparu eu gofal eu hunain yn rhagweithiol ar yr un pryd. Er bod hyn yn hawdd i'w ddweud, mae'n anodd ei gyflawni oherwydd bod rhaid symud i ffwrdd oddi wrth y model meddygol mamolaethol neu dadofalaethol o ofal iechyd a oedd yn fuddiol iawn i'r GIG yn ystod 50 mlynedd cyntaf ei fodolaeth.

Fodd bynnag, mae gennym yr offer i alluogi hyn i ddigwydd, drwy gyfrwng dyfodiad arloesedd technoleg ddigidol.

Er mwyn datgelu'r buddion sylweddol y gall technolegau digidol eu cynnig, yn gyntaf, mae'n rhaid i chi sicrhau bod unigolion wrth wraidd yr hyn rydych chi'n ei wneud. Bydd cynllunio gan sicrhau bod defnyddwyr wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn hanfodol os rydyn ni'n gobeithio mwyaflu manteision buddsoddiadau ariannol mewn atebion digidol yn y dyfodol. Rhaid i wasanaethau gael eu cynllunio gan gadw defnyddwyr mewn cof, nid anghenion sefydliadol, ac mae dyluniad gwasanaeth sydd wedi'i alluogi'n ddigidol yr un mor bwysig â'r dechnoleg ei hun.

Rydyn ni'n gwybod mai gorau po fwyaf rydyn ni'n ei wybod am glaf neu ddefnyddiwr gwasanaeth unigol oherwydd bydd yn haws addasu'r gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr ateb yn cael ei ddefnyddio.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen data arnom. Am flynyddoedd lawer, yr unig ddata gofal iechyd roedd y GIG yn ymddiried ynddo oedd y data roedd y GIG ei hun yn ei gynhyrchu. Erbyn hyn, mae gennym y gallu i gasglu data o nifer o systemau'r sector cyhoeddus ac o ffynonellau eraill er mwyn deall profiadau go iawn ein dinasyddion yn well.

Mae hyn yn ein galluogi i ddatblygu offer a chynhyrchion digidol y gellir eu cyflwyno i'n poblogaeth er mwyn eu galluogi i guradu eu data eu hunain a gwneud dewisiadau iechyd a lles mwy gwybodus. Bydd yn eu galluogi i gael mynediad at wasanaethau ar eu telerau eu hunain, adrodd eu stori unwaith yn unig, a chael mynediad at wasanaethau ar yr adeg fwyaf priodol, er mwyn diwallu eu hanghenion unigol.

O safbwynt technoleg, nid yw'r dyfodol yn un dychmygol; mae'r galluoedd hyn yn bodoli heddiw. Fodd bynnag, bydd angen newid diwylliannol er mwyn sicrhau'r manteision y gall yr ymagwedd hon eu cynnig.

Pe bai dinasyddion yn cael y cyfle i gadw eu data eu hunain a rhoi caniatâd i'r data gael ei rannu â phwy bynnag y dymunent, gallai drawsnewid sut rydyn ni'n darparu iechyd a gofal. Os yw **iechyd yn bwysig**, yna gallai rhannu data sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion fod yn un o'r camau pwysicaf y byddwn yn eu cymryd at system fwy ymatebol, sy'n canolbwyntio ar ataliad.



Pe gallai dinasyddion ddal a rhannu eu data eu hunain, gallai drawsnewid y ffordd rydym yn darparu iechyd a gofal.

Materion Iechyd: O Anrhefn i Ddiwylliant – Pam mae'n Rhaid i Gymru Newid ei Meddylfryd i Drawsnewid Iechyd a Gofal

Yr Athro Fonesig Sue Bailey

Mae Iechyd yn Bwysig. Mae'n bwysig i bob un ohonom, o'r eiliad rydym yn cael ein geni, ac mae'n cael ei lywio'n sylweddol gan y bobl sydd o'n cwmpas a'r cymunedau rydym yn perthyn iddynt. Ledled y byd, mae llywodraethau'n cydnabod bod cyswllt cymdeithasol yn sylfaen i iechyd, nid yn beth moethus. Mae'r dystiolaeth yn amlwg: mae perthyn, perthnasoedd cefnogol, a chyswllt ystyrlon yr un mor bwysig i les ag y mae ymyrraeth glinigol.

Os ydyn ni eisiau datgloi'r twf economaidd parhaus a ddisgrifir yn aml fel Greal Santaidd gwleidyddiaeth, mae'n rhaid i ni wneud mwy na chydabod y gwirionedd hwn yn unig. Rhaid i ni alluogi iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, byd gwaith a chyfiawnder i weithredu fel un system, gan weithio mewn cynghreiriaeth go iawn gyda'r bobl y maen nhw'n eu gwasanaethu. Nid slogan yw cynghreiriaeth; mae'n gofyn am chwilfrydedd, dewrder ac ymrwymiad.

Mae hyn yn hollbwysig ym maes iechyd meddwl. Mae cynghreiriad iechyd meddwl yn berson gwybodus ac empathig sy'n gwrando heb farnu, yn cysylltu pobl â chymorth, ac yn hyrwyddo dealltwriaeth ar draws y system gyfan. Dyma'r newid diwylliannol sydd ei angen ar Gymru – un sy'n cydnabod bod iechyd yn cael ei lywio nid yn unig mewn ysbytai a chlinigau, ond mewn cartrefi, gweithleoedd, ysgolion a chymunedau hefyd.

A chan fod iechyd yn cael ei lywio drwy gydol bywyd, rhaid i ni dalu sylw penodol i'r amgylcheddau y mae plant yn cael eu magu ynddynt. Mae plant yn byw mewn teuluoedd, mae teuluoedd yn byw mewn cymunedau, ac mae ysgolion wrth galon cymunedau. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydnabod ei bod hi'n hanfodol sicrhau'r dechreuad gorau posib i blant er mwyn iechyd gydol oes. Er mwyn cefnogi'r weledigaeth hon, mae angen newid sut rydyn ni'n hyfforddi'r gweithlu ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder.

Ond er mwyn i hyn oll ddigwydd, mae angen i ni weithredu fel system, mae angen i ni ddysgu cytuno'n dda ac anghytuno'n well. Mae cymhlethdod canfyddedig yn aml yn gweithredu fel cyfiawnhad dros ddiffyg gweithredu. Mewn llawer o achosion, yr hyn a ystyrir yn gymhlethdod yw symlrwydd wedi'i gelu gan nifer o ofynion a safbwyntiau sy'n amrywio. Mae'r nod yn parhau i fod yn syml: mwy o bobl yn iach ac yn ymdopi, a llai yn dioddef neu'n sâl.

Yn yr hinsawdd bresennol, mae'n gallu teimlo fel ein bod yn symud o un argyfwng i un arall. Ond er mwyn newid o anrhefn i ddiwylliant, mae angen eglurder ynghylch beth yw diwylliant mewn gwirionedd: ffordd o fyw a rennir gan grŵp o bobl, eu credoau, eu harferion, eu gwerthoedd, eu hymddygiadau, a'u gwybodaeth, wedi'u trosglwyddo o un genhedlaeth i'r un nesaf. Mae'n dylanwadu ar ein ffordd o weld y byd, a sut rydyn ni'n gweithredu ynddo.

Mae gan Gymru ddiwylliant gweladwy cyfoethog, ond mae'r haenau dyfnach yr un mor bwysig: y gwerthoedd craidd a'r tybiaethau sy'n llywio sut rydyn ni'n cydweithio. Mae'n fwy anodd newid yr haenau dyfnach hyn, ond dyma le mae trawsnewid yn dechrau hefyd.

Mae meddwl trwy systemau yn ein helpu i wahaniaethu rhwng newid cyson a thrawsnewid go iawn. Fel y sylwodd Gaius Petronius Arbiter yn 66 OC, **"Gwnaethom hyfforddi'n galed, ond roedd yn ymddangos fel ein bod yn cael ein had-drefnu bob tro roeddem yn dechrau ffurfio**



Mae'r Athro Fonesig Sue Bailey yn Gomisiynydd Bevan, yn Seiciatrydd Plant a Theuluoedd, ac yn ymchwilydd y gwyddorau cymdeithasol. A hithau'n gyn-Lywydd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, ac yn Gadeirydd Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol, mae wedi meddu ar rolau cynghorol uwch ar draws y DU, ac mae nawr yn Llywydd y Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl, ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Gofal Integredig Manceinion Fwyaf.

timau." Mae ad-drefnu'n gallu creu camargraff o gynnydd gan beri dryswch, aneffeithioldeb, a digalondid. Rhaid i Gymru wrthod y fagl hon.

Os ydyn ni o ddifrif ynglŷn â symud o anrhefn i ddiwylliant, mae'n rhaid i ni gydnabod yr offer sydd gennym eisoes. Nid oes diffyg syniadau, tystiolaeth nac ewyllys da yng Nghymru; ond yn aml, mae diffyg hyder gennym i'w defnyddio'n feiddgar ac yn gyson.

Mae cydweithredu yn un o'r sbardunau mwyaf pwerus; nid y fersiwn sy'n ymddangos mewn dogfennau strategaeth, ond y math sy'n dod i'r amlwg pan fo pobl wir yn gweithio gyda'i gilydd â phwrpas a rennir. Mae cydweithredu'n feddylfryd: arweinwyr yn creu'r amodau i ysgogi ymddiriedaeth; dinasyddion yn cael eu trin fel partneriaid yn hytrach na phroblemau; sefydliadau'n cydnabod eu bod nhw'n rhan o gyfarwydd mwy, yn hytrach nac ynnysoedd sy'n cystadlu â'i gilydd. Pan fo cydweithredu'n beth arferol, mae systemau'n dechrau symud.

Mae caredigrwydd yn sbardun arall, nid y fersiwn feddal, ond yr hyn a elwir gan Ballatt a Campling yn garedigrwydd deallus. Mae'n cydnabod bod ein lles yn rhyng-gysylltiedig, a bod tosturi'n ysgogi ansawdd a diogelwch. Pan fo arweinwyr yn gweithredu â charedigrwydd deallus, mae'n newid tymheredd emosiynol system. Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu bod yn medru lleisio eu barn, ac yn medru poeni am rywbeth. Pan fo hynny'n digwydd, mae popeth arall yn bosibl.

Mae'n rhaid i ni hefyd ddeall pŵer hunaniaeth a pherthyn. Mae degawdau o wyddor gymdeithasol yn cadarnhau'r hyn mae ymarferwyr wedi'i wybod ers amser maith: mae pobl yn parhau i fod yn iach os ydynt yn teimlo'n rhan o rywbeth. Mae perthyn, boed i deulu, ysgol, gweithle, cymdogaeth neu gymuned ddiwylliannol, yn rhoi'r adnoddau seicolegol ac ymarferol i bobl ymdopi â heriau bywyd. Pan fo gwasanaethau'n meithrin perthyn yn hytrach na'i erydu, rydym yn datglo'r hyn a elwir yn "iachad cymdeithasol" gan Haslam.

Nid damcaniaethau haniaethol yw'r sbardunau hyn. Maen nhw'n sylfeini system iechyd a gofal sy'n gweithio. Maen nhw hefyd yn werthoedd hynod Gymreig. Os ydyn ni'n dewis eu blaenoriaethu, gallan nhw ein helpu i feithrin diwylliant sy'n cefnogi pobl i ffynnu, nid goroesi yn unig.

Yn y cyfnod hwn o newidiadau gwleidyddol parhaus, mae geiriau Aneurin Bevan yn addas: **"Nid yw salwch yn foeth y dylai pobl dalu amdano nac yn drosedd y dylent gael eu cosbi amdani, ond yn hytrach mae'n anlwc a dylai'r gost gael ei rhannu gan y gymuned."**

Y perygl heddiw yw bod anghenion cystadleuol yn ein gorfodi i roi gweithredoedd hanfodol yn y bocs "rhy anodd". Ond **mae iechyd yn rhy bwysig.**

Rhaid i ni ofyn:

- Ydyn ni'n diwallu anghenion poblogaeth Cymru?
- Ydyn ni'n darparu'r gofal gorau ym mhob man, i bawb?
- Ydyn ni'n dileu amrywiad na ellir ei gyfiawnhau?
- Ydyn ni'n gwneud dewisiadau doeth ac yn sicrhau gwerth am arian?

Dyma ofal iechyd darbodus ar waith. Nid yw gwella ansawdd yn foeth; dyma'r ateb i'n heriau presennol. Fel y dywed Syr Don Berwick, un o Gomisiynwyr Bevan, mae'r nod yn syml: Dim marwolaethau diangen, dim poen na dioddefaint diangen, dim diymadferthedd ymhlith defnyddwyr gwasanaeth na'r rhai sy'n ei ddarparu, dim amrywiad neu wastraff diesgus ac neb yn cael eu hepgor

Nid delfrydau haniaethol yw'r egwyddorion hyn. Maen nhw'n lasbrint ymarferol ar gyfer system iechyd a gofal deg, effeithiol a thosturiol.

Mae Cymru ar groesffordd. Rydyn ni'n wynebu pwysau go iawn ar ein system iechyd a gofal, ond mae gennym y gallu i arloesi a chydweithredu a'r dewrder ar y cyd i'w goresgyn? Os byddwn yn gweithredu â bwriad, ac wedi ein harwain gan dystiolaeth, tosturi a phwrpas a rennir, gallwn feithrin diwylliant sy'n cefnogi pobl nid yn unig i ffynnu, ond i oroesi hefyd. Mae iechyd yn bwysig. Mae diwylliant yn bwysig. A bydd y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud nawr yn llunio Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Materion Iechyd: Ble bydden ni heb y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru?

Sue Evans OBE

Ble bydden ni heb y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru? Go brin byddwn ni'n stopio i ofyn y cwestiwn hwn, ond mae'r ateb yn sail i ddiogelwch, urddas ac annibyniaeth miloedd o bobl bob dydd. Os ydym o ddifrif ynglŷn ag adeiladu Cymru deg a ffyniannus, rhaid i ni ddechrau drwy gydnabod bod **iechyd yn bwysig**, ac nid oes modd gwahanu **gofal cymdeithasol** oddi wrth iechyd ein cenedl.

Prif rôl gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol yw grymuso a diogelu'r plant a'r oedolion hynny a allai fod mewn perygl o niwed neu golli annibyniaeth. Gall y risgiau hynny ddeillio o esgeulustod, camdriniaeth, bregusrwydd, salwch, anabledd, neu ddiffyg cymorth.

I lawer ohonom sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, mae'n hawdd cymryd yn ganiataol y bydd ein plant yn bwyta bwyd iach, yn byw mewn cartrefi cynnes, yn cael addysg weddus, ac ni fyddant yn wynebu esgeulustod neu gamdriniaeth. Fel oedolion, rydym yn disgwyl rheoli ein gofal personol, ein cyllid a'n bywydau beunyddiol ein hunain, a mwynhau gweithgareddau cymdeithasol, addysgol a hamdden heb gymorth.

Ond nid dyma'r realiti i bawb. Ac yn y darn hwn, rwy'n canolbwyntio ar oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o oedolion eisiau profi **"beth sy'n bwysig"** iddyn nhw - egwyddor graidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Gall llawer o bobl gyflawni hyn drwy eu rhwydweithiau eu hunain sy'n cynnwys teulu, ffrindiau a chydweithwyr. Ond i oedolion sy'n fregus, sy'n byw â salwch neu anabledd, neu sydd mewn perygl o niwed, mae cymorth yn dod yn hanfodol.

Pan fydd y rhwydweithiau naturiol hynny'n absennol neu'n annigonol, mae'r gweithiwr cymdeithasol i oedolion yn camu i mewn ac yn asesu pa ganlyniadau y mae'r person eisiau eu cyflawni, gan gynnig cyngor a threfnu'r cymorth cywir. Ei dasg yw amddiffyn hawliau dynol, mwyaflu annibyniaeth, a sicrhau bod yr unigolyn yn cadw llais a rheolaeth lle bynnag y bo modd.

Ond nid yw'r system mae'n gweithio ynddi bob amser yn gydnaws â'r diben hwn. Mae tensiynau yn aml yn codi rhwng gweithwyr proffesiynol y GIG a gweithwyr cymdeithasol pan ystyrir bod oedolyn agored i niwed yn "feddygol addas" i adael yr ysbyty.

Nid yw'r ffocws gwleidyddol a gweithredol ar weithgarwch ysbyty yn gwneud llawer iawn i gefnogi'r gweithiwr cymdeithasol sy'n gorfod sicrhau diogelwch ac annibyniaeth y tu hwnt i ddrws yr ysbyty. Gall rhyddhau cleifion o'r ysbyty ar frys greu risgiau gwirioneddol pan nad yw cynlluniau gofal a chymorth ar waith eto, cynlluniau a allai ofyn am gydlynw ar draws teuluoedd, sefydliadau gwirfoddol, a gweithwyr gofal cymdeithasol a gomisiynwyd.



Mae Sue Evans OBE yn Gomisiynydd Bevan â thri degawd o brofiad o arwain ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol yng Nghymru. Cyn hynny, bu'n Llywydd ADSS Cymru ac yn Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru, gan helpu i sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru, lle roedd hefyd yn Brif Swyddog Gweithredol. Bellach wedi ymddeol, mae hi'n parhau i fod yn weithgar drwy waith gwirfoddol ac fel Aelod Cysylltiol o ADSS Cymru.

Yn groes i lawer o'r naratif cyhoeddus, mae gwasanaethau cymdeithasol yn llawer mwy na mecanwaith rhyddhau i'r GIG. Mae'n wasanaeth cyhoeddus hanfodol, wedi'i wreiddio ym myd llywodraeth leol, a chanddo'r gallu i gysylltu'n ddi-dor â gwasanaethau tai, addysg, hamdden, gwasanaethau cymunedol, a'r trydydd sector. Mae'r cyrhaeddiad lleol hwn yn galluogi asesiadau cyfannol ac ymatebion cydgysylltiedig sy'n adlewyrchu holl gymhlethdod bywydau pobl.

Os ydym o ddifrif ynglŷn â gwella canlyniadau, mae angen ffocws cryfach ar iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned, gan osgoi derbyniadau i'r ysbyty yn hytrach na rheoli oedi wrth ryddhau cleifion. Mae gan lawer o ranbarthau eisoes wasanaethau gofal canolraddol a hybiau cymunedol sy'n dod â'r trydydd sector i rolau ataliol a chefnogol. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru, mae cryfhau'r adnoddau hyn y tu allan i'r ysbyty yn hanfodol, ac mae'n rhaid i gyllid ddilyn yr uchelgais honno.

Mae rhai yn dadlau mai integreiddio strwythurol ffurfiol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yw'r ateb. Ond mae llawer o ffyrdd o gyflawni gwell cydlynu heb amharu'n fawr drwy ad-drefnu. Mae Cymru eisoes yn elwa o drefniadau partneru rhanbarthol y gellid eu hatgyfnerthu i gyflawni canlyniadau a rennir.

Fel y mae dadansoddiad Dr Hugh Alderwick o systemau iechyd yr OECD yn ein hatgoffa, nid oes strwythur perffaith, mae ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn rhy gymhleth. Dylai'r flaenoriaeth fod ar wella'r system sydd gennym eisoes, nid mynd ar drywydd delfryd anhygoel wedi'i gynllunio ymhell o'r rheng flaen.

Mae iaith hefyd yn bwysig. Yn aml iawn bydd y GIG yn siarad yn nhermau llif cleifion, llwybrau a phroses, wedi'u llunio gan bwysau gwleidyddol ar amseroedd aros a ffigurau triniaeth. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol eu mesurau perfformiad eu hunain, ond llawer llai o graffu cyhoeddus. Gellir rhagweld y canlyniad: mae pwysau gwleidyddol a chyhoeddus yn cyfeirio cyllid tuag at y GIG, gan roi pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Ond y capasiti lleol hwnnw, y cymorth cymunedol, ymyrraeth gynnar, a gwasanaethau ataliol sy'n lleihau'r galw ar y GIG ac yn helpu Cymru i ymdopi â phoblogaeth hŷn, llai iach.

Felly ble mae hyn yn ein gadael ni? Â gwirionedd syml a brys: Ni all Cymru ddarparu'r iechyd a'r lles y mae ei phobl yn eu haeddu heb weithlu gofal cymdeithasol cryf sy'n cael ei werthfawrogi, a chanddo'r gefnogaeth briodol.

Nhw yw'r isadeiledd tawel o annibyniaeth, urddas a diogelwch ac mae eu cyfraniad yn rhy aml yn anhysbys tan y foment y mae ar goll.

Wrth i'r etholiadau nesaf ar gyfer Senedd Cymru agosáu, mae cyfle i bob plaid wleidyddol gydnabod y realiti hwn. Nid drwy sloganau nac aflonyddwch strwythurol, ond drwy ymrwymiad clir i gryfhau gofal yn y gymuned, buddsoddi mewn atal, a gwerthfawrogi'r gweithlu sy'n dal cymaint o'n ffabrig cymdeithasol ynghyd.

Oherwydd **bod iechyd yn bwysig**. Mae gofal cymdeithasol yn bwysig. A bydd ein dewisiadau ni nawr yn creu Cymru'r dyfodol.



Nhw yw'r isadeiledd tawel o annibyniaeth, urddas a diogelwch ac mae eu cyfraniad yn rhy aml yn anhysbys tan y foment y mae ar goll.

Materion Iechyd: Pam mai Dewrder ac nid Pwyll fydd yn Penderfynu Dyfodol Iechyd a Gofal yng Nghymru

Dr. Helen Howson

Mae etifeddiaeth Aneurin Bevan yn gofyn am fwy na gwarchod, mae'n gofyn am ddewrder. Os yw'r GIG am barhau fel ein trysor pennaf, mae gennym ddyletswydd foesegol i sicrhau ei fod yn gynaliadwy, yn wydn ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Ni fydd hynny'n cael ei gyflawni drwy ail-adrodd yr hyn rydym wedi'i wneud erioed neu aros am ganiatâd i weithredu.

Saith deg wyth mlynedd ers ei sefydlu, mae'r GIG bellach yn gweithredu mewn byd na fyddai ei sefydlydd erioed wedi gallu ei amgyffred. Mae cyflyrau hirdymor yn cynyddu, newid mewn demograffeg, pwysau ar y gweithlu a chynnydd technolegol cyflym yn golygu nad yw aros yn yr unfan yn opsiwn mwyach. Nid p'un a ddylai'r GIG esblygu yw'r cwestiwn, ond p'un a ydym yn barod i lywio'r esblygiad hwnnw gyda'n gilydd.



Mae Helen Howson yn Gyfarwyddwr Comisiwn Bevan, melin drafod annibynnol mwyaf blaenllaw Cymru ar gyfer iechyd a gofal.

Mae rhai yn dadlau y dylid gadael llonydd i'r GIG. Ond er bod yr egwyddorion y tu ôl iddo yn dragwyddol, mae angen i'r ffordd yr ydym yn darparu gofal newid yn barhaus. Yr her wirioneddol yw sut i gynnwys pobl, gweithwyr proffesiynol a chymunedau yn y sgwrs honno, fel bod y system yn adlewyrchiad o anghenion heddiw ac yfory. Ers degawdau, mae'r hyn sydd angen newid yn hysbys i ni:

- mwy o bwyslais ar atal
- defnydd doethach o dechnoleg
- ail-ddylunio gwasanaethau
- ffyrdd newydd o weithio

Ac eto mae troi tystiolaeth yn ymarfer cyson ledled Cymru yn parhau i fod yn heriol.

Mae gan Gymru'r cynhwysion i arwain. Rydym o'r maint cywir, mae gennym rwydweithiau cryf a gweithlu medrus ac angerddol. Trwy ein Henghreiffiau a'n Cymrodyr Bevan, rydym yn gweld bob dydd y creadigrwydd a'r ymrwymiad sydd eisoes yn bodoli. Ond heb bwrpas cyffredin, mae'r risg yn glir: bydd y GIG yn raddol wywo wrth i dlodi, salwch ac anghyfartaledd waethygu. Felly beth sy'n ein rhwystro?

I symud ymlaen, mae'n rhaid i ni newid ein ffordd o feddwl. **Mae iechyd yn fusnes i bawb.** Mae oddeutu 85% o'r hyn sy'n siapio ein hiechyd yn digwydd y tu allan i'r GIG, yn ein cartrefi, ein gweithleoedd, ein cymunedau a'n hamgylchedd. Os ydym am i bobl fyw bywydau iachach a hirach, rhaid i ni sicrhau mai'r dewisiadau iach yw'r dewisiadau hawdd.

Mae'r GIG yn rhagori mewn trin salwch, ond mae llesiant hirdymor yn dibynnu ar fynd i'r afael â'r ffactorau ehangach sy'n effeithio ar iechyd: addysg, cyflogaeth, tai a gwydnwch cymunedol. Rhaid i "iechyd ym mhob polisi" ddod yn wirionedd, nid rhethreg.

Nid yw newid byth yn hawdd. Pur anaml mae gorchmynion o'r brig i lawr yn creu newid parhaol, a gall y cyhoedd fod yn ochelgar ynghylch newid, yn enwedig pan mae'n ymwneud â gwasanaethau lleol y'u trysorir. Ac eto, mae ein sgysiau â chymunedau yn dangos rhywbeth gwahanol: gwir awydd am onestrwydd, am gyfranogiad, ac am feddwl mwy radical fel bod pobl yn teimlo fel eu bod yn cael eu parchu a bod rhywun yn gwrando.

Rhaid i ni ddysgu gwrando'n well. Nid ymgynghori'n unig ond gweithio gyda phobl fel partneriaid. Pan roddir ymddiriedaeth mewn arloeswyr rheng flaen a phan gânt gefnogaeth, mae syniadau newydd yn ffynnu, mae cydweithio'n cynyddu ac mae newid yn dod yn rhywbeth mae pobl yn cymryd perchnogaeth ohono yn hytrach na'i wrthsefyll.

Mae rhaid i ni hefyd fod yn fwy darbodus, creadigol a chyfunol. Mae ein gwaith diweddar ar lif y system a "rheolau gwirion" yn dangos sut mae arferion hen ffasiwn yn gwastraffu amser ac egni. Os ydym ni o ddifrif am wella, mae'n rhaid i ni roi'r gorau i'r hyn nad yw'n ychwanegu gwerth mwyach.

Mae'r uchelgais yn glir: pobl a chymunedau iachach, a mwy ffyniannus ledled Cymru. Mae cyflawni hyn yn gofyn am ymdrech ar y cyd nid arsylwi goddefol, ond yn hytrach, cyfranogi gweithredol.

Ni ellir sicrhau dyfodol iechyd a gofal drwy ddal gafael yn y gorffennol heb ei newid. Bydd yn cael ei lunio gan ein parodrwydd i ddysgu, cydweithio a, yn bwysicaf oll, bod ddigon dewr i newid. Dyma sydd wrth galon **Materion Iechyd**: cydnabod bod y dewisiadau a wnawn heddiw yn penderfynu p'un a yw ein system yn goroesi, neu'n wirioneddol ffynnu, yfory.



Nid p'un a ddylai'r GIG esblygu yw'r cwestiwn, ond p'un a ydym yn barod i lywio'r esblygiad hwnnw gyda'n gilydd.

#MaterionIechyd



I gael gwybod mwy ewch i:
www.bevancommission.org



[Dilynwch ni ar LinkedIn](#)



[Cofrestrwch ar gyfer Bwletin Comisiwn Bevan](#)



[Dilynwch ni ar Instagram](#)